




Adroddiadau Blynyddol y Llywodraethwyr

Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethol



CYNNWYS

Cyflwyniad:	Tudalen
Rhestr Ddarllen	2-3
Cefndir	4
Amseru	4
Dosbarthu	5
Cynhyrchu Deunydd Atyniadol	5
Cynnwys yr Adroddiad Cryno:	
Manylion y Cyfarfod Rhieni Blynyddol	6
Manylion yr Aelodau	6
Gwybodaeth am Berfformiad a Thargedau	6
Cynnwys yr Adroddiad Llawn:	
Manylion Ariannol	7
Y Camau Gweithredu a gymerwyd gan y Corff Llywodraethol / Ysgol	7
Trefniadaeth a Pholisiau	7-8
Gwybodaeth am Berfformiad a Thargedau: Cyrchfan y Rhai sy'n Gadael yr Ysgol	8-9
Enghreifftiau o Arfer Da	10-19
Gwybodaeth am Berfformiad	Atodiad 1
Gwybodaeth am Berfformiad (Ysgolion uwchradd yn unig)	Atodiad 2
Gwybodaeth am Dargedau	Atodiad 3
Cynnwys Adroddiadau Blynyddol y Llywodraethwyr: Cyfeiriad at yr Offerynnau Statudol	Atodiad 4

Caiff y Cylchlythyr hwn ei gyfeirio at Gadeiryddion Cyrff Llywodraethol Ysgolion. Caiff copïau ohono ei anfon at Benaethiaid, Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Addysg mewn Awdurdodau Lleol, Ysgrifenyddion cyrff cenedlaethol a lleol, a Sefydliadau Hyfforddi Athrawon.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r Cylchlythyr hwn, a Llyfrynau'r Cynulliad Cenedlaethol isod, gan:

Cangen Rhieni a Gwybodaeth (ASP4)
Adran Hyfforddiant ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6010
Ffacs: 029 2082 6016
Ebost: education.training@wales.gsi.gov.uk
neu ymwelwch â www.dysgu.cymru.gov.uk

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn at:

Catherine Roberts
Cangen Rhieni a Gwybodaeth (ASP4)
Adran Hyfforddiant ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6012
Ffacs: 029 2082 6016
Ebost: Catherine.Roberts@wales.gsi.gov.uk

RHESTR DDARLLEN

Llyfrynau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 15/01: Prosbectysau Ysgolion – Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethol;
- Gosod Targedau – Canllawiau ar gyfer Penaethiaid a Chyrff Llywodraethol (2000)
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 35/98: Adroddiadau ar Gyflawniadau Disgyblion o 1999;
- "Sut mae'ch Plentyn yn Dod Ymlaen yn yr Ysgol Gynradd?" Arweiniad i Rieni ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, Asesu a Chyflwyno Adroddiadau (cyhoeddir yn flynyddol);
- "Sut mae'ch Plentyn yn Dod Ymlaen yn yr Ysgol Uwchradd?" Arweiniad i Rieni ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, Asesu a Chyflwyno Adroddiadau (cyhoeddir yn flynyddol);
- Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 18/00: Cymeradwyo Cymwysterau yn Statudol o dan Adran 400.

Caiff y canlynol eu cynhyrchu'n flynyddol:

- Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru: Cyfnod Allweddol 1;
- Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru: Cyfnod Allweddol 2;
- Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru: Cyfnod Allweddol 3;
- Canlyniadau TGAU/CGCC yng Nghymru: Cyfnod Allweddol 4;
- Gwybodaeth Feincnodi ar gyfer Cyfnod Allweddol 1;
- Gwybodaeth Feincnodi ar gyfer Cyfnod Allweddol 2;
- Gwybodaeth Feincnodi ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4.

Canllawiau ACCAC

- y gyfres Defnyddio Gwybodaeth Asesu yn Effeithiol;
- Awgrymiadau Ymarferol ar gyfer Asesu Disgyblion sy'n Gweithio tuag at lefel 1.

ACCAC Publications
PO Box 2129
Erdington
Birmingham
B24 0RD
Ffôn: 07071 223647
Ffacs: 0121 3776522

Cyhoeddiadau Estyn

- Safonau ac Ansawdd mewn Ysgolion Cynradd: Gosod Targedau ar gyfer Gwella (1999);
- Pa mor dda yr ydym yn ei wneud? Arolwg o hunan-arfnu mewn Ysgolion Uwchradd 1998-1999 (1999);
- Safonau ac Ansawdd mewn Ysgolion Uwchradd: Mynd i'r afael â Pherfformiad Isel (1999);
- Hunan-Arfnu mewn Ysgolion Cynradd: Ychwanegu gwerth a gwneud gwahaniaeth (2001).

Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW
Ffôn: 029 2044 6446
Ffacs: 029 2044 6448

CYFLWYNIAD

Mae'r Cylchlythyr hwn yn darparu canllawiau i ysgolion a chyrrff llywodraethol ar gynnwys statudol Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr. Mae'n disodli canllawiau blaenorol oedd wedi'u cynnwys yng Nghylchlythyrau'r Swyddfa Gymreig 22/96 a 40/96 mewn perthynas ag Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr. Mae Cylchlythyr 14/01 yn disodli'r wybodaeth ynghylch Prosbectysau Ysgolion.

Mae rhai mân newidiadau i'r rhestr statudol o gynnwys a threfniadau dosbarthu ar gyfer Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr, fel y nodir yn Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2001. Dyma'r prif newidiadau:

- rhaid cynnwys manylion ar ba gamau a gymerwyd i adolygu polisiau ysgolion;
- rhaid cynnwys manylion ar ba gamau a gymerwyd i roi strategaethau ysgolion penodol ar waith a'u hadolygu;
- nid oes angen cynnwys yr eitem ar ddiogelwch mewn ysgolion yn yr adroddiad blynyddol bellach (caiff hwn ei gynnwys ym Mhrosbectysau Ysgolion bellach);
- nid oes angen dosbarthu copïau o'r adroddiad llawn i bob rhiant bellach. Os bydd ysgolion yn dymuno, gallant ddosbarthu adroddiad cryno yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol ar berfformiad a thargedau, manylion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac enwau aelodau'r Corff Llywodraethol, a manylion ar sut y gallant wneud cais am gopi o'r adroddiad llawn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ailgyflawni (gyda'r mân newidiadau uchod) Rheoliadau Addysg (Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr) (Cymru) 1999, a ddiddymwyd. Daw'r Rheoliadau i rym ar 1af Medi 2001.

CEFNDIR

Gofynnir i Gyrff Llywodraethol pob ysgol a gynhelir gynhyrchu adroddiad blynyddol i'r rhieni. Ceir manylion y cynnwys statudol yn y canllaw hwn, fodd bynnag, gall Cyrff Llywodraethol, wrth gwrs, ddewis ychwanegu gwybodaeth ychwanegol a fydd yn ddefnyddiol yn eu barn hwy.

AMSERU

Nid oes unrhyw adeg benodol o'r flwyddyn ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr. Fodd bynnag, er mwyn cyd-fynd â'r gofynion gosod targedau, anogir Cyrff Llywodraethol i gyhoeddi eu hadroddiadau yn ystod tymor yr Hydref. Rhaid darparu'r adroddiad blynyddol i'r rhieni o leiaf 2 wythnos cyn y cyfarfod blynyddol lle caiff yr adroddiad ei ystyried.

DOSBARTHU

Gwerthfawrogir y gall cynhyrchu a dosbarthu'r adroddiad blynyddol llawn i bob rhiant fod yn gostus i ysgolion. Felly mae'r Rheoliadau yn caniatáu i ysgolion ond darparu'r adroddiad llawn i'r rhieni hynny sy'n gwneud cais amdano, ac i ddosbarthu adroddiad cryno i bob rhiant. Rhaid i'r adroddiad cryno gynnwys gwybodaeth statudol benodol, y ceir manylion ohonynt yn adrannau 1 i 3 o'r Cylchlythyr hwn. Ceir manylion am y wybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr adroddiad llawn yn adrannau 4 i 6. Dylai Cyrff Llywodraethol nodi fod yn rhaid rhoi gwybod i'r rhieni sut y gallant gael copi o'r adroddiad llawn, ac mae'n rhaid iddo fod ar gael i bob rhiant sy'n gwneud cais am gopi.

CYNHYRCHU DEUNYDD ATYNIADOL

Mewn ymateb i geisiadau gan ysgolion, cyrrff llywodraethol ac AALL, mae'r Cylchlythyr hwn yn cynnwys canllawiau ar gynhyrchu Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr mwy atyniadol. Wedi'i seilio ar enghreifftiau o arfer dda a nodir gan Estyn, ceir awgrymiadau ar gyfer ffyrdd o drefnu a chyflwyno'r wybodaeth i'w chynnwys mewn adroddiadau blynyddol yn y llyfryn hwn. Fodd bynnag, dylid nodi mai **awgrymiadau** yn unig yw'r rhain, a chyfrifoldeb ysgolion a Chyrff Llywodraethol yw penderfynu a ydynt yn dymuno eu defnyddio ai peidio, ac ym mha ffordd.

Trefnir y Cylchlythyr mewn ffordd sy'n disgrifio:

- 1) y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr adroddiad cryno;
- 2) y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr adroddiad llawn; ac
- 3) enghreifftiau o arfer dda.

Cyhoeddir y rhestr lawn o gynnwys statudol yn Atodiad 4 ac yn y siart wal amgaeedig.

Cynnwys yr Adroddiad Blynyddol Cryno

1. Manylion y Cyfarfod Rhieni Blynyddol

- Yr amser, dyddiad, lleoliad ac agenda ar gyfer y cyfarfod rhieni blynyddol.
- Arwydd o ddiben y cyfarfod.
- Adroddiad ar yr ystyriaeth a roddir i unrhyw benderfyniad a wnaed yn y cyfarfod diwethaf.

2. Manylion yr Aelodau

- Enwau a chyfeiriadau'r clerc ar cadeirydd.
- Enwau aelodau'r Corff Llywodraethol, eu cyfnod yn eu swyddi, a'u statws, e.e. rhiant, athro, llywodraethwr sylfaen, cyfetholedig, a benodwyd mewn ffordd arall, yn rhinwedd eu swydd.
- Yn achos llywodraethwr a benodwyd, gan bwy y cafodd ei benodi/phenodi, pryd y daw'r penodiad i ben (heblaw am lywodraethwyr yn rhinwedd eu swydd), a gwybodaeth am yr etholiad nesaf o rieni lywodraethwyr.

3. Gwybodaeth am Berfformiad a Thargedau

Gall ysgolion â Dosbarthiadau Arbennig Penodedig neu Unedau Arbennig Penodedig ddangos dwy set o wybodaeth am berfformiad. Gellir cyflwyno ail set sy'n cynrychioli canlyniadau prif ffrwd yn unig, ochr yn ochr â chanlyniadau'r ysgol gyfan, os bydd ysgolion yn dewis gwneud hynny.

Canlyniadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Canlyniadau asesiadau statudol diweddaraf y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 (fel y bo'n briodol) ar lefel ysgol a chenedlaethol (Cymru-gyfan). Caiff y canlyniadau cenedlaethol (Cymru-gyfan) eu cyhoeddi'n flynyddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn taflenni a llyfrynau "Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru", a anfonir i bob ysgol. Ceir rhestr lawn o'r wybodaeth angenrheidiol yn Atodiad 1.

Canlyniadau TGAU, Cymwysterau Lefel Derbyn, TAG Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol, CGCC a CGC

Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Llywodraethol ysgolion Uwchradd a gynhelir gyhoeddi amrediad o wybodaeth ar ganlyniadau'r uchod o fewn Adroddiadau Blynyddol eu Llywodraethwyr. Caiff yr isafswm gwybodaeth sydd ei hangen ei chynnwys o fewn Adroddiad Cryno o Gyflawniad yr Ysgol (RE2) a ddarperir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gall ysgol ddefnyddio copïau o'r Adroddiad hwn i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol os dymuna. Ceir rhestr lawn o'r wybodaeth yn Atodiad 2.

Gwybodaeth am y targedau

Crynodeb o'r targedau a osodwyd gan y corff llywodraethol ar gyfer y tair blynedd nesaf a sylwadau ar gynnydd yr ysgol tuag at y targedau mwyaf diweddar. Ceir rhestr lawn o'r targedau y gofynnir i ysgolion eu gosod yn Atodiad 3.

Cynnwys yr Adroddiad Blynyddol Llawn

Yn ogystal â'r wybodaeth a gafodd ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol cryno, rhaid cynnwys y wybodaeth ganlynol yn yr adroddiad blynyddol llawn. Rhaid i'r adroddiad llawn fod ar gael i bob rhiant sy'n gwneud cais am gopi.

4. Manylion Ariannol

Datganiad ariannol llawn a ddylai gynnwys y canlynol ar gyfer ysgolion sirol a gwirfoddol:

- ailgynhyrchu neu grynhoi unrhyw ddatganiad a ddarperir gan yr AALL o dan Adran 52 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ers yr adroddiad blynyddol diwethaf;
- manylion sut y gwariwyd unrhyw arian a ddarparwyd gan yr AALL;
- manylion unrhyw roddion a gyflwynwyd i'r ysgol;
- cyfanswm y costau teithio a chynhaliaeth a dalwyd i aelodau'r corff llywodraethol.

5. Y Camau Gweithredu a gymerwyd gan y Corff Llywodraethol/Ysgol

- Y camau a gymerwyd o ganlyniad i unrhyw benderfyniadau a basiwyd yn y cyfarfod diwethaf.
- Cynnydd ar gynllun gweithredu'r ysgol (ar ôl arolygiad).
- Y camau a gymerwyd i ddatblygu neu gryfhau cysylltiadau â'r gymuned (yn cynnwys cysylltiadau â'r heddlu).
- Crynodeb o'r newidiadau i brosbectws yr ysgol ers ei gyhoeddi.
- Y camau a gymerwyd i arolygu polisiau'r ysgol (er enghraifft, gallai hyn gynnwys polisiau ymddygiad yr ysgol, unrhyw bolisi cydraddoldeb hiliol; neu drefniadau ar gyfer arolygu polisi diogelwch yr ysgol).
- Y camau a gymerwyd i roi strategaethau penodol yr ysgol ar waith a'u hadolygu (er enghraifft, gallai hyn gynnwys strategaeth ymddygiad cyffredinol yr ysgol, unrhyw strategaethau yn yr ysgol i ymdrin ag ymwybyddiaeth hiliol; strategaethau yn erbyn bwlio; neu unrhyw gamau a gymerwyd i wella diogelwch adeiladau a/neu ddiogelwch disgyblion a staff).

6. Trefniadaeth a Pholisïau

AAA

- Manylion polisi Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yr ysgol, yn cynnwys ei lwyddiant, dyrannu adnoddau, newidiadau a wnaed, ac unrhyw ymgynghori â'r AALL ac ysgolion eraill.

Disgyblion ag anableddau

- Disgrifiad o'r trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion ag anableddau (yn cynnwys y trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig heb ddatganiadau).
- Manylion y camau a gymerwyd i atal disgyblion ag anableddau rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill.
- Manylion y cyfleusterau a ddarparwyd i hwyluso mynediad i ddisgyblion ag anableddau i'r ysgol (er enghraifft, mynediad yn gorfforol neu fynediad i'r cwricwlwm).

Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn diffinio person anabl fel rhywun sydd "â nam corfforol neu feddyliol a gaiff effaith sylweddol a hirdymor andwyol ar allu person i gyflawni gweithgareddau cyffredin o ddydd i ddydd". Er enghraifft, byddai hyn yn cynnwys nam ar y synhwyrâu a fyddai'n effeithio ar eu golwg a'u clyw, anableddau dysgu, anffurfiadau difrifol ac anhwylderau graddol lle mae'r nam yn debygol o ddod yn sylweddol.

Nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol i ysgolion arbennig.

Chwaraeon

- Cynnydd o ran cwrdd â nodau mewn chwaraeon, ac unrhyw orchestion arbennig yn y byd chwaraeon

Gallai'r adran hon gynnwys (h.y. nid yw'r eitemau hyn yn ofyniad statudol):

canlyniadau timau'r ysgol a chystadlaethau;

ystod o gystadlaethau yn yr ysgol;

gorchestion disgyblion unigol eithriadol ym myd chwaraeon, gan gynnwys manylion unrhyw wobrau cyflawniadau personol gan y Corff Llywodraethol;

manylion unrhyw nawdd chwaraeon dros y flwyddyn ddiwethaf;

enwau unrhyw enwogion ym myd chwaraeon a ymwelodd â'r ysgol y llynedd.

7. Gwybodaeth am Berfformiad a Thargedau

Yn ogystal â'r wybodaeth a amlinellwyd eisoes yn adran 3, mae angen i'r manylion canlynol gael eu cynnwys yn yr adroddiad llawn, er y gellid eu cynnwys yn yr adroddiad cryno os bydd ysgolion yn dymuno gwneud hynny.

Cyrchfan y rhai sy'n gadael yr ysgol

Ar gyfer **disgyblion 15 neu 16 oed** ar ddechrau'r flwyddyn ysgol flaenorol.

- Cyfanswm y disgyblion yn y grŵp oedran.
- Y ganran sydd, ers hynny, wedi dechrau:

cwrs mewn unrhyw ysgol neu gwrs addysg bellach;
cyflogaeth;
hyfforddiant;
unrhywategori arall; a
y rheiny nad yw eu cyrchfan yn hysbys.

Ar gyfer **disgyblion 17 oed neu'n hŷn** ar ddechrau'r flwyddyn ysgol flaenorol.


- Cyfanswm y disgyblion yn y grŵp oedran.
- Canran sydd wedi dechrau'r canlynol:

unrhyw gwrs addysg bellach;
unrhyw gwrs addysg uwch;
cyflogaeth;
unrhywategori arall; a
y rheiny nad yw eu cyrchfan yn hysbys.


Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi gwybodaeth am gyrchfannau disgyblion a oedd yn 16 oed neu'n hŷn yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol. Byddai hyn yn golygu, er enghraifft, bod yn rhaid i adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2001/2002 (h.y. ar gyfer y disgyblion sy'n cael eu derbyn yn y flwyddyn ysgol 2002/2003) gynnwys gwybodaeth am y rhai hynny oedd yn 15 oed neu'n hŷn ar ddechrau'r flwyddyn ysgol 1999/2000.

Enghreifftiau o Arfer Da

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys deunydd o Adroddiadau Blynyddol y Llywodraethwyr sy'n bodoli eisoes, a nodwyd fel enghreifftiau o arfer da gan Estyn. Cânt eu cynnwys fel enghreifftiau o ffyrdd y gellir gwneud yr Adroddiad Blynyddol yn fwy atyniadol, a allai ennyn mwy o ddiddordeb a chyfranogiad yn y cyfarfod blynyddol i rieni. Awgrymiadau yn unig yw'r rhain, ac felly penderfyniad yr ysgolion a'r cyrff llywodraethol yw p'un a ydynt am eu defnyddio; ac os felly, sut i'w defnyddio.



Llais y Llywodraethwyr



HYDREF 1999 Cyfrol 1 Rhifyn 3

ADRODDIAD BLYNYDDOL I'R RHINI

GAIR GAN Y CADEIRYDD

Ym mis Mawrth 1999 dafnha 30 mlynedd o ddarparu addysg ardderchog i blant Y Drenewydd yn Hafren mae'n rhoi pleser mawr i mi gyflwyno'r adroddiad llywodraethwyr hwn i'r rhieni.

Bu'n flwyddyn brysur o fewn yr ysgol a chlyda'r gweithgareddau niferus y mae Hafren yn cynnryd rhan yndym a lefel sirol a chenedlaethol - gweithgareddau diwyllianol, awyr agored a chwaraeon. Treulir ychydig o funudau yn darllen am lwyddiannau'r plant ac edrych ar eu gwaith celf.


Mae fy nhymor fel Cadeirydd yn dod i ben eleni ac rwy'n dymuno'n dda i'm olynnydd. Mae'r prifathro, y staff ymroddgar a'r plant yn gwneud Hafren yn le arbennig. Boed i'w ffyniant barhau.

(Cyflwyno'r adroddiad)
Cynthia McVey (Cadeirydd)

PENBLWYDD HAPUS YSGOL HAFREN!

Ym mis Medi 1969 cyrhaeddodd y disgyblion cyntaf i'r Ysgol Gynradd newydd yn Hafren. Roedd Y Drenewydd wedi gweld cynnydd aruthrol yn ei phoblogaeth ar ôl i'r Bwrdd Dathblygu adeiladu ystadau newydd. Am rai blynyddoedd roedd plant yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau "dros dro" oherwydd y niferoedd a cholofrestrwyd mwy na 500 o blant.

Ym mis Medi eleni rydym yn edrych yn ôl ar 30 mlynedd lwyddiannus yn Hafren. Rydym yn gofebthio cael arddangosfa ddiadromol - bu'r plant yn ymchwilio a chyfranodd y cyn-staff a'r staff presennol. Bydd pob plentyn yn derbyn mwg i gofio'r achlysur.



Pwy'di pwy ar y Corff Llywodraethol

PRIFATHRO:	Mr. Penri Roberts
RHIANI LYWODRAETHWYR: Etholir hwy gan y rhieni am dymor o 4 blynedd.	
Mrs Cynthia McVey	Hyd. 96
Mr. John Barker	Hyd. 96
Mrs. Helen Rees	Hyd. 96
Mrs. Nerys Williams	Hyd. 96
ATHRO LYWODRAETHWYR: Etholwyd gan yr athrawon o'u plith eu hunain.	
Mrs. Sian Davies	Hyd. 96
Miss Linda Saul	Hyd. 96
LLYWODRAETHWYR A.A.L.L. POWYS: Penodir hwy gan yr Awdurdod Addysg Lleol.	
Mr. Alan Venables	1975
Mrs. Mari Davies	Ebrill 95
Mrs. Sandra Grosvenor	Rhag. 95
Mr. Hywel Jones	Tach. 96
Congor y Dref, Y Drenewydd: Penodwyd gan Gyngor y Dref.	
Y Cyng. Val Howard	Ebrill 98
Llywodraethwyr Cyfetholedig: Gwahoddir hwy i ymuno â'r Bwrdd oherwydd eu harbenigedd, sy'n ychwanegu at fedrusrwydd y Bwrdd at ei glydd.	
Mrs. Linda Davies	Hyd. 96
Mr. John Hedges	Hyd. 96
Mr. Eifion Graen	Medi 95 Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Mr. Ken Davies	Hyd. 96
CLERC: Mrs. Dawn Luth, Ceri, Y Drenewydd	

CYFARFOD

Cynhelir CYFARFOD BLYNYDDOL Y RHINIENI pryd y bydd y Llywodraethwyr yn adrodd i'r rhieni.

DYDD MERCHER
20ed HYDREF AM
7 P.M.

YN NEUADD YR YSGOL
CROESO I BOB RHIAN!

tu mewn...

BETH SY'N DIGWYDD YN YSGOL EICH PLENTYN
LLYTHRENNEDD YN HAFREN
GWYBODAETH AM T.A.S. 88

COPI SAESNEG AR GAEL

➤ Gall cyflwyno'r adroddiad fel newyddlen wneud i'r wybodaeth ymddangos yn fwy 'cyfeillgar i'r darlennydd'. Mae'r enghraifft uchod yn dangos sut y gellir gosod yr wybodaeth yn y ffordd hon.

➤ Gall cynnwys cyflwyniad neu ragair gan Gadeirydd y Llywodraethwyr fod yn ffordd dda o grynhoi prif bwyntiau'r adroddiad ac amlygu digwyddiadau arbennig y flwyddyn ddiwethaf. Hefyd gall gynnig cyfle da i bwysleisio pwysigrwydd y cyfarfod blynyddol a'r prif bwyntiau a gaiff eu trafod. Mae'r enghreifftiau isod a thros y dudalen yn dangos hyn.

Annwyl Rieni

Dyna flwyddyn arall drosodd eto! Hoffwn fel Llywodraethwyr fanteisio ar y cyfle hwn i amlinellu crynodeb o gyfrifoldebau'r Corff Llywodraethol wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Cewch gipolwg ar fywyd yr ysgol, ei hystadegau a'i chyflawniadau yn yr adroddiad. Mae gwaith y Corff Llywodraethol yn parhau i weithredu yn bennaf drwy'r Pwyllgorau Ymgynghorol Sefydlog. Hoffwn i, fel cadeirydd, ddiolch i'm cydweithwyr am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r adroddiad hefyd yn fforwm cyhoeddus i mi ddiolch i'r Pennaeth a holl staff yr ysgol am eu hymroddiad di-ffael tuag at addysg ein plant.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Gymdeithas Rhieni Athrawon am eu hymdrechion diflino wrth gynorthwyo'r ysgol mewn cymaint o ffyrdd gwahanol.

Diolchaf yn ddiffuant i chi, ein rhieni. Diolchwn am eich cydweithrediad ym mhopeth y gofynna'r ysgol i chi ei gyflawni.

Mae dyfodol gwych i Ysgol Bryn Mair ar drothwy Mileniwm Newydd, ysgol i ymfalchio ynddi, lle caiff yr holl ddisgyblion help i gyflawni eu llawn botensial, ar gyfer eu dyfodol eu hunain a dyfodol ein cymuned. Drwy gydweithio - staff, rhieni, Llywodraethwyr a disgyblion - gallwn wynebu pob her sy'n ein hwynebu yn llawn brwdfrydedd.

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Oddi wrth Gadeirydd y Corff Llywodraethol

Ar ran Cyfungorff Llywodraethol Ysgol Babanod ac Ysgol Iau Maes Glas, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn i chi ar weithgareddau, datblygiadau a chynnydd eithriadol ein dwy ysgol drwy y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ffurfiol, mae'r adroddiad yn cwmpasu'r flwyddyn ysgol 1998/99, ond rydym wedi manteisio ar y cyfle i gynnwys datblygiadau hyd at yr adeg y cafodd ei ysgrifennu.

Arolygiad Iau

Cynhaliwyd arolygiad manwl o'r Ysgol Iau gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg ym mis Ebrill 1999. Mae hyn yn rhan o gylch parhaol o arolygiadau a gynhelir ym mhob ysgol. Cynhaliwyd arolygiad tebyg ar ysgol y Babanod yn ystod tymor yr hydref 1997.

Roedd yr adroddiad dilynol yn ardderchog ac yn glod mawr i'r plant, yr athrawon a'r rhieni. Unwaith eto mae gennym dystiolaeth annibynnol o ragoriaeth ysbryd a gwerth addysgol ein hysgolion. Rhaid i mi longyfarch tîm yr Ysgol Iau am yr holl ymdrech a roddwyd i'r arolygiad.

Ar ddiwedd mis Medi derbyniais lythyr gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg yng Nghymru, yn llongyfarch yr Ysgol Iau ar adroddiad rhagorol.

Deallaf gan y Cyfarwyddwr Addysg mai prin iawn y bydd hyn yn digwydd.

Profion y Cwricwlwm Cenedlaethol

Mae'r Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i bob plentyn gael ei brofi yn ystod Cyfnod Allweddol 1 (Babanod) a Chyfnod Allweddol 2 (Iau).


Cynhaliwyd y profion hyn yn ein hysgolion ym mis Mai yn ôl yr arfer ac nid yn unig y maent yn dangos fod canlyniadau ein hysgolion yn well na'r cyffredin yn sylweddol, ond maent hefyd yn dangos gwelliannau helaeth ar ganlyniadau 1998.

Clwb ar ôl Ysgol

Yr adeg hon y llynedd gwnaethom eich hysbysu fod y Clwb ar ôl Ysgol ar fin cael ei agor, rhywbeth y bu llawer o rieni yn disgwyl amdano am beth amser. Cymerodd ychydig yn hirach na'r disgwyl ond agorodd yn ystod tymor y Gwanwyn 1999 ac mae wedi derbyn cefnogaeth dda ers hynny. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r sefydliadau a'r cefnogwyr a gyfrannodd tuag at sefydlu'r Clwb.

O ganlyniad i'r llwyddiant hwn ac fel ymateb i geisiadau rhieni, cychwynnodd Clwb Brecwast ym mis Medi eleni. Ceir manylion am y Clwb Brecwast a'r Clwb ar ôl Ysgol yn ddiweddarach yn yr adroddiad. (Gweler Tudalen 16).

- Gall rhywfaint o bwyntiau bwled ar y dudalen agoriadol gynnig ffordd syml ond effeithiol o amlygu prif orchestion/digwyddiadau'r ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf. Gellid gwneud yr un peth ar y dudalen olaf i amlygu'r prif ddigwyddiadau/blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r enghraifft isod yn dangos sut y gallai tudalen agoriadol edrych.



- **Gwelliant pendant yn ein canlyniadau TGAU**
- **Cyflawniad gwell i bawb**
- **Cynnydd gan yr ysgol mewn sawl maes, i mewn i'r mileniwm newydd**
- **Cynnydd cadarn ar gynllun datblygu a Materion Allweddol yr ysgol**
- **Y Corff Llywodraethol yn gweithredu mewn grwpiau penodol ar feysydd o gyfrifoldeb allweddol.**

- Gellir cynnwys adroddiad o unrhyw weithgareddau a drefnwyd gan y gymdeithas rhieni athrawon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal ag unrhyw weithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dangosir enghraifft isod.

Ysgol Uwchradd Treffynnon Cymdeithas Ysgol Cartref



Mae blwyddyn ysgol newydd wedi cychwyn. Unwaith eto mae'r Llywodraethwyr wedi caniatáu i ni gael lle yn eu Hadroddiad Blynyddol i hyrwyddo digwyddiadau codi arian a rhoddion a wnaed i wahanol adrannau o fewn yr ysgol dros y flwyddyn gofiadwy ddiwethaf.

Medi - Ar ddechrau'r flwyddyn ysgol gosodwyd system PA newydd yn y neuadd – wedi'i hariannu'n rhannol gan y Gymdeithas Ysgol Cartref. Bydd system sain llawer gwell bellach o fantais i bawb – plant, rhieni, staff ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Y Nadolig - Cafodd aelodau'r pwyllgor noson allan yn bwyta a dawnsio – ffordd dda o ddechrau'r dathliadau!

Chwefror - Raffl San Ffolant – Mae'n siwr i chi weld ein gwirfoddolwyr yn gwerthu tocynnau raffl yn ystod yr wythnos cyn Dydd San Ffolant. Cododd y digwyddiad hwn £250.00 i'r ysgol ac enillodd deg o bobl lwcus o ardal Treffynnon wobrau yn amrywio o wyliau byr mewn gwesty i swper o bysgod a sglodion.

Mai - Uchafbwynt y flwyddyn – y Ras 5km. Unwaith eto, roedd y ras yn llwyddiant mawr a chasglwyd dros £3000.00. Ar ddiwedd y Ras 5km hefyd cyflwynwyd rhodd i'r Pennaeth oedd yn ymddeol. Cyflwynodd y Gymdeithas Ysgol Cartref ddaearfaen amethyst iddo – rhodd addas ar gyfer daearyddwr â diddordeb brwd mewn daeareg.

Gorffennaf - Roedd strydoedd Treffynnon yn fwrlwm o sain cerddoriaeth un bore Sadwrn. Casglodd Marathon Cerddoriaeth Treffynnon dros £300.00 i'r ysgol ac ar yr un pryd difyrrwyd y rhai oedd yn siopa a'r rhai oedd yn gweithio yn y siopau. Mwynhaodd pawb oedd yn ddigon lwcus i fod yno ar y diwrnod yr awyrgylch a grëwyd ac mae hwn yn ddigwyddiad arall yr hoffem ei wneud yn achlysur blynyddol yng nghalendr y dref.

Ac felly daeth y flwyddyn ysgol i ben.

- Cyn y wybodaeth ar berfformiad gellir cael tudalen esboniadol, yn nodi pa asesiadau gaiff eu cynnal, pryd y cânt eu cwblhau a beth yw ystyr y canlyniadau. Mae hyn yn gyflwyniad defnyddiol i'r wybodaeth.



ATODIAD PROSPECTWS 1999/2000

Isod ceir synopsis o ganlyniadau 1998/99 mewn:

TGAU

SAFON UWCH

CGCC

Hefyd ceir crynodeb o ganlyniadau'r ysgol mewn Profion Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 3 a chanlyniadau Cymru-gyfan ar gyfer Profion Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 3 ar gyfer 1998.

CANLYNIADAU TGAU 1998/99

Cyfradd Basio A* - C	64%
Cyfradd Basio A* - G	99%

Cyfran y Disgyblion a gafodd 5 gradd A* - C	64%
--	-----

CANLYNIADAU SAFON UWCH 1998/99

Cyfradd Basio A – B	44%
Cyfradd Basio A – C	70%

Cyfartaledd sgôr pwyntiau ar gyfer Ymgeiswyr 2 Safon Uwch	21
--	----

CANLYNIADAU CGCC 1998/99

Canolradd (Teilyngdod/Rhagoriaeth)	95%
Uwch (Teilyngdod/Rhagoriaeth)	90.3

- Mae blychau testun esboniadol gyferbyn â'r tablau yn ffordd ddefnyddiol o wneud synnwyr o'r wybodaeth.

CANLYNIADAU ASESIADAU'R CWRICWLWM CENEDLAETHOL (Blwyddyn)

Canran y Disgyblion ar Bob Lefel

		D	A	N	B	W	1	2	3	4	5	6	Lefel 4 ac uwch
SAESNEG Asesiadau Athrawon	Ysgol	0	0	0	d/g	0	0	4	28	55	13	0	68
	Cenedlaethol	0	0	1	d/g	1	1	6	21	48	22	0	70
Prawf/Tasg	Ysgol	0	7	0	0	d/g	d/g	2	24	54	13	d/g	67
	Cenedlaethol	0	2	1	1	d/g	d/g	5	17	48	26	d/g	74
CYMRAG Asesiadau Athrawon	Ysgol	0	0	0	d/g	0	0	4	25	53	18	0	71
	Cenedlaethol	2	0	1	d/g	0	1	5	24	49	18	0	67
Prawf/Tasg	Ysgol	0	5	0	0	d/g	d/g	3	24	49	19	d/g	68
	Cenedlaethol	2	2	0	2	d/g	d/g	4	22	50	18	d/g	68
MATHEMATEG Asesiadau Athrawon	Ysgol	0	0	0	d/g	0	0	0	11	72	17	0	89
	Cenedlaethol	0	0	1	d/g	0	1	5	22	47	24	0	71
Prawf/Tasg	Ysgol	0	3	0	0	d/g	d/g	0	15	54	28	d/g	82
	Cenedlaethol	0	2	1	1	d/g	d/g	5	22	44	25	d/g	69
GWYDDONIAETH Asesiadau Athrawon	Ysgol	0	0	0	d/g	0	0	0	9	70	21	0	91
	Cenedlaethol	0	0	1	d/g	0	0	4	17	53	25	0	78
Prawf/Tasg	Ysgol	0	5	0	0	d/g	d/g	0	4	67	24	d/g	91
	Cenedlaethol	0	2	0	0	d/g	d/g	3	14	55	26	d/g	81

DANGOS PYNCAU CRAIDD*

Asesiad Athrawon	Ysgol	65
	Cenedlaethol	64
Prawf/Tasg	Ysgol	64
	Cenedlaethol	63

Bydd plentyn Blwyddyn 6 nodweddiadol wedi cyrraedd Lefel 4 fwy na thebyg - felly mae cyrraedd Lefel 5 yn ganlyniad eithriadol o dda. Mae'n anghyffredin cyrraedd Lefel 6 yn ll oed. Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn symud i lefel newydd tua phob dwy flynedd. Mae disgyblion yn debygol o gyrraedd lefel uwch mewn rhai pynciau ac agweddau nac mewn eraill ar yr un adeg.

- D: Wedi'u heithrio neu wedi'u datgymhwyso o dan Adran 364 neu 365 o Ddeddf Addysg 1996.
- A: Disgyblion o fethodd â chofnodi lefel oherwydd absenoldeb.
- N: Disgyblion a fethodd â chofnodi lefel am resymau ac eithrio absenoldeb.
- B: Disgyblion na chofrestrwyd ar gyfer y profion am eu bod yn gweithio y tu allan i'r lefelau a bennwyd ar gyfer profion.
- W: Yn gweithio tuag at lefel 1.
- * Y canran o'r disgyblion sy'n cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth mewn cyfuniad.

- Gellid cynnwys manylion ymweliadau addysgol y flwyddyn ddiwethaf. Gallai hyn ymgorffori gwaith y disgyblion a seiliwyd ar yr ymweliadau hyn, fel y dangosir yn yr enghraifft isod.

Mae YMWELIADAU ADDYSGOL nid yn unig yn rhoi cyfle i blant fwynhau amrediad eang o brofiadau diddorol a chyffrous ond maent hefyd yn rhoi cefndir i'w gwaith ysgol a'i gyfoethogi.

TY GWYN

Bu Dosbarthiadau 5/6W, 6H a 6S yn dringo mynyddoedd, yn canŵio, dringo dros greigiau ac yn bwyta fel ceffylau a hynny i gyd wrth gael hwyl anfarwol. Mae pawb yn dweud "Pryd bydd fy nhro i!"

HWYL YN Y DDINAS - Trip i Lundain



Cafwyd trip cyffrous iawn i Lundain eleni pan gafodd y plant gyfle i gerdded drwy giatau Stryd Downing a sefyll o flaen y drws ffyrnt mwyaf adnabyddus ym Mhrydain. Yma gwelwch Dosbarth 5/6W gyda Chwnstabl Bridges a drefnodd yr ymweliad - un o fechgyn Y Drenowydd. Cafodd y plant wibdaith o amgylch y ddinas hefyd a mynd i'r Amgueddfa Gwyddor Natur. Roedd pawb wedi mwynhau sioe Dr. Doolittle a phlant blinedig ond hapus ddaeth adref wedi ymweliad cyffrous a bythgofiadwy.

YSGOL HAFREN AR GRWYDR

TRIP I'R GOGLEDD

Mae'r trip, sy'n flynyddol bellach, i Orsaf Dinorwig a'r Ganolfan Dechnoleg Amgen yn cyfuno llawer o waith am ddaeryddiaeth, yr amgylchedd a gwyddoniaeth ac yn rhoi cyfle i'r plant fwynhau rhai o ardaloedd harddaf Cymru.

MERCH YN CERDDED.....

Cymrodd blant o ddsbarthiadau 4D a 4/5L ran mewn perfformiad yn dwyn y teitl hwn yn Oriol Goffa Davies ym mis Chwefror ar ôl cwrs yn cynnwys dawns, 'sgwennu a cheff.

YR URDD

Buom yn cefnogi'r Urdd yn yr ysgol drwy'r chob ar ôl ysgol sy'n cynnal llawer o weithgareddau - chwaraeon, paratoi gwaith celf i'r eisteddfodau a gwaith elusennol fel canu carolau ar gyfer Ty Gobaith. Hefyd, aeth plant Blwyddyn 5 i LANGRANNOG a chael myrdd o lwyd i'w sgio, cerdded a marchogaeth tra'n gwella eu defnydd o'r Gymraeg.



BROC MŌR...

Roedd gwaith cwricwlwm ar y môr yn llawer mwy byw i 1/2R ar ôl ymweld â Sŏr Fôr Ellesmere Port.

GALWODD DOSBARTHIAU 3 & 4 HEIBIO'R ORSAP DÂN, SWYDDFA'R POST A GORSAP YR HEDDLU

PENNANT MELANGELL

Gwaith ar chwedlau a llen gwerin Celtaidd oedd y sŏl i ymweliad dosbarthiadau 3J a 4D i Bennant Melangell ar Ragŷr Iaf.

CELTICA

Mwynhaodd Dosbarthiadau 3J a 4D yr ymweliad â Celtica ym Machynlleth

ac yn nes adre... **THEATR HAFREN**
Rydym yn ffodus o gael cyfleusterau fel hyn mor agos ac yr ydym yn eu defnyddio gymaint ag y gallwn. Aeth Dosbarth 3/4 i weld "Funny Bones" gan Alan Albergh. Hefyd gwelodd llawer o'r plant sioe diogelwch tân, dan ofal y gwasanaeth tân, yn pwysleisio peryglon tân.

Tudalen 3

- Gellid cynnwys adran ar ddiwedd yr adroddiad yn edrych ymlaen at y prif ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r enghraifft isod yn dangos sut y gall hyn fod yn ffordd ddefnyddiol o dynnu sylw'r rhieni at ddigwyddiadau pwysig.

Edrych Ymlaen – digwyddiadau a thargedau

Ysgol y Babanod

Yn ystod y flwyddyn 2000 byddwn yn cwblhau'r project Celf Seramig y bu'r plant yn cymryd rhan ynddo ac mae'n dda nodi fod tŵr cloc Ysgol Babanod Victoria yn un o'r nodweddion gaiff ei gynnwys yn y project. Hefyd yn ystod 2000 byddwn yn cwblhau croglun i ddathlu'r Mileniwm, lle mae pob plentyn wedi creu sgwâr o ddefnydd a gaiff eu gwnïo at ei gilydd.

Mae'r staff yn cychwyn ar fenter llythrennedd o'r enw "Camau Cyntaf" a gaiff ei gweithredu yn ystod y flwyddyn ysgol nesaf fydd yn ychwanegu at strategaethau llythrennedd sydd mewn grym eisoes ac yn eu hatgyfnerthu. Yn ystod tymor yr hydref nesaf bydd yr ysgol yn ceisio cyflawni'r Nod Ansawdd

Ysgol Iau

Fel rhan o'n haddewid barhaus i wella a chynnal ansawdd yr addysg a ddarparwn ar gyfer ein plant byddwn yn parhau â'n hymdrech i gyflawni'r wobwr hynod glodfawr "Buddsoddwyr mewn Pobl". Mae'r wobwr hon yn cynnwys cynnal archwiliad gofalus o'r ffyrdd y gall ysgolion fel ein rhai ni "wella ar eu safonau gorau blaenorol".

Targedau a Gyflawnwyd gan yr Ysgol Iau:

- Tymor eithriadol i'n tîm pêl-rwyd, heb golli tan cyrraedd Rownd Derfynol y Sir
- Sefydlu Clwb tu allan i'r Ysgol llwyddiannus
- Sefydlu Clwb Brecwast newydd sbon oherwydd y galw gan rieni
- Cyflawni (o'r diwedd) ein maes chwarae gwair ein hunain wedi'i ffensio i'r ddwy ysgol
- Adroddiad arolygiad arbennig o dda
- Canlyniadau arbennig o dda
- Sefydlu cynllun darllen â chod lliwiau clir

Targedau'r Ysgol Iau ar gyfer y Dyfodol:

- Mynd i'r afael â chanfyddiadau'r arolygiad drwy'r Cynllun Gweithredu
- Datblygu cae newydd yr ysgol mewn cydweithrediad â'n cydweithwyr yn ysgol y babanod
- Sefydlu ystafell Gyfrifiaduron newydd
- Gwella'r canlyniadau Saesneg 10% a chynnal y safonau mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth
- Gosod rhwydwaith CCTV i atal rhagor o fandaliaeth

Sgiliau Sylfaenol. Caiff gwaith parhaus pellach ei wneud ar y Sachau Stori, menter sy'n cynhyrchu offer ac adnoddau eraill i ategu'r llyfrau stori fydd yn ysgogi'r darllen. Yn ystod haf 2000 byddwn yn cwblhau polisi llythrennedd newydd a chynllun gwaith sy'n cynnwys mathemateg y pen, yn ogystal â chynnal arolwg o waith Gwyddoniaeth, Cerddoriaeth a Blynyddoedd Cynnar yr ysgol.

Ymysg y targedau ysgol-gyfan pellach mae cynnal safon uchel canlyniadau TASau Lefel 2 ac uwch, cadw'r lefelau uchel presennol o bresenoldeb disgyblion, cadw gwariant o fewn y gyllideb a ddyrannwyd gan yr AALI tra'n cynnal lefelau staffio boddhaol ac adnoddau boddhaol.

- Gall rhestr geirfa helpu i egluro unrhyw dalfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad a gwella dealltwriaeth o'r wybodaeth. Dangosir enghraifft isod.

Rhestr
Geirfa..



AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
AALI	Awdurdod Addysg Lleol
CDT	Crefft, Dylunio a Thechnoleg
CGCC	Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol
CLAIT	Cymhwyster mewn technoleg gwybodaeth
Cyfnod Allweddol 3	Y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc 11-13 oed
Cyfnod Allweddol 4	Y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed
Pynciau craidd	Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth
RSA	Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau (bwrdd arholi)
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
Uwch Gyfrannol	Cwrs safon uwch blwyddyn yn y 6ed dosbarth

Atodiad 1

Gwybodaeth am Berfformiad

Cyfnod Allweddol 1

Canlyniadau'r Ysgol a Chanlyniadau Cenedlaethol (Cymru-gyfan)

- Nifer y disgyblion ym mlwyddyn olaf Cyfnod Allweddol 1.
- Canran y disgyblion fel y nodwyd gan yr Asesiad Athrawon:
 - a) a oedd wedi cyrraedd pob lefel ym mhynciau Saesneg, Cymraeg (fel iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth;
 - b) a oedd wedi cyrraedd pob lefel yn nhargedau cyrhaeddiad siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu mewn Saesneg;
 - c) a oedd wedi cyrraedd pob lefel yn nhargedau cyrhaeddiad llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg (fel iaith gyntaf);
 - ch) a oedd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (fel iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth cyfun.
- Canran y disgyblion fel y nodwyd gan Dasgau/Profion y CC:
 - a) oedd ar bob lefel yn nhargedau cyrhaeddiad darllen ac ysgrifennu mewn Saesneg;
 - b) oedd ar pob lefel yn nhargedau cyrhaeddiad llafaredd, darllen ac ysgrifennu mewn Cymraeg (fel iaith gyntaf);
 - c) oedd ar bob lefel mewn mathemateg.
- Canran y disgyblion a eithriwyd o'r asesiadau o dan adrannau 364 neu 365 Deddf Addysg 1996.

Cyfnod Allweddol 2

Canlyniadau'r Ysgol a Chanlyniadau Cenedlaethol (Cymru-gyfan)

- Nifer y disgyblion ym mlwyddyn olaf Cyfnod Allweddol 2.
- Canran y disgyblion fel y nodwyd gan yr Asesiad Athrawon a Phrofion/Tasgau'r CC:
 - a) a oedd wedi cyrraedd pob lefel (yn cynnwys gweithio tuag at lefel 1) ym mhynciau Saesneg, Cymraeg (fel iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth;
 - b) a oedd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (fel iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth cyfun;
 - c) a eithriwyd o'r asesiadau o dan Adrannau 364 neu 365 Deddf Addysg 1996;
 - ch) a fethodd â chofrestru lefel oherwydd iddynt gollir asesiad oherwydd absenoldeb
 - d) a fethodd â chofrestru lefel ar ôl cael eu hasesu;
 - dd) na chawsant eu cyflwyno ar gyfer y profion am eu bod yn gweithio y tu allan i lefel y profion.

Cyfnod Allweddol 3

Canlyniadau'r Ysgol a Chanlyniadau Cenedlaethol (Cymru-gyfan)

- Nifer y disgyblion ym mlwyddyn olaf Cyfnod Allweddol 3.
- Canran y disgyblion fel y nodwyd gan Asesiad Athrawon a Phrofion/Tasgau'r CC:
 - a) a oedd wedi cyrraedd pob lefel (yn cynnwys gweithio tuag at lefel 1), ym mhynciau Saesneg, Cymraeg (fel iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth;
 - b) a oedd wedi cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (fel iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth cyfun;
 - c) a eithriwyd o'r asesiad o dan Adrannau 364 neu 365 Deddf Addysg 1996;
 - ch) a fethodd â chofrestru lefel oherwydd iddynt gollir asesiad oherwydd absenoldeb;
 - d) a fethodd â chofrestru lefel ar ôl cael eu hasesu;
 - dd) na chawsant eu cyflwyno ar gyfer y profion am eu bod yn gweithio y tu allan i lefel y profion.

Nid yw'n ofynnol i benaethiaid drosglwyddo unrhyw wybodaeth i Gyrrff Llywodraethol i'w cynnwys o fewn Adroddiadau Blynyddol y Llywodraethwyr (na phrosbectysau ysgol) lle mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael eu hasesu yn llai na phump. Caiff hyn ei nodi gan y rheoliadau er mwyn diogelu cyfrinachedd canlyniadau disgyblion unigol mewn ysgolion lle nad oes ond nifer fach iawn o'r disgyblion yn gymwys i gael eu hasesu. Lle mae'r nifer yn llai na deg, ond yn fwy na phedwar, yr unig rai y mae angen i'r pennaeth eu trosglwyddo yw canran y disgyblion:

- sy'n cyrraedd lefel 2 neu well ar gyfer Cyfnod Allweddol 2;
- sy'n cyrraedd lefel 4 neu well ar gyfer Cyfnod Allweddol 4;
- sy'n cyrraedd lefel 5 neu well ar gyfer Cyfnod Allweddol 5.

Fodd bynnag, rhaid i'r Corff Llywodraethol gynnwys datganiad yn esbonio pam bod y wybodaeth wedi'i chyhoeddi yn y modd hwn, neu pam na chaiff unrhyw wybodaeth ei chynnwys.

Atodiad 2

Gwybodaeth am berfformiad (Ysgolion uwchradd yn unig)

Canlyniadau TGAU, Cymwysterau Lefel Derbyn, TAG Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol, CGCC a CGC

Mae'n ofynnol i Gyrrff Llywodraethol gyhoeddi ystod o wybodaeth. Wrth gwrs, gallant gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gyflawniadau disgyblion. Dyma rai enghreifftiau: graddau TGAU a gyflawnir ar ôl 15 oed; graddau Safon Uwch/Uwch Gyfrannol a gyflawnir cyn 16 oed; cymwysterau galwedigaethol a gyflawnir ar lefelau gwahanol i'r rhai y gofynnir amdanynt.

Gall ysgolion â Dosbarthiadau Arbennig Penodedig neu Unedau Arbennig Penodedig arddangos dwy set o wybodaeth. Gellir cyflwyno ail set sy'n cynrychioli canlyniadau prif ffrwd yn unig, ochr yn ochr â chanlyniadau'r ysgol gyfan os bydd yr ysgol yn dymuno gwneud hynny.

Mae **isafswm** y wybodaeth fel a ganlyn:

Ar gyfer disgyblion 15 oed

- Ar gyfer y flwyddyn ysgol dan sylw, nifer y disgyblion 15 oed ar gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr.
- Canran y disgyblion 15 oed:
 - a) a gyflwynwyd ar gyfer pump arholiad TGAU neu fwy neu gyfwerth;
 - b) a gyflawnodd TGAU a chymwysterau galwedigaethol sy'n gyfwerth â phump arholiad TGAU neu fwy graddau A*-C.
 - c) a gyflawnodd arholiad TGAU a chymwysterau galwedigaethol sy'n gyfwerth â phump arholiad TGAU neu fwy graddau A*-G;
 - ch) a gyflawnodd arholiadau TGAU graddau A*-C mewn mathemateg, gwyddoniaeth, Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) cyfun (h.y. y Dangosydd Pwnc Craidd);
 - d) a gyflwynwyd ar gyfer o leiaf un Cymhwyster Lefel Derbyn (e.e. Tystysgrif Cyflawniad Addysgol), cwrs byr TGAU, TGAU neu gyfwerth;
 - dd) a gyflwynwyd ar gyfer un arholiad TGAU neu fwy neu gyfwerth;
 - e) a gyflawnodd TGAU neu fwy a chymwysterau galwedigaethol sy'n gyfwerth ag un arholiad TGAU graddau A*-C;
 - f) a gyflawnodd TGAU a chymwysterau galwedigaethol sy'n gyfwerth ag un arholiad TGAU neu fwy graddau A*-G;
 - ff) na chyflawnodd unrhyw raddau TGAU neu gyfwerth;
 - g) a gyflawnodd o leiaf un cwrs byr TGAU graddau A*-G neu gyfwerth;
 - ng) a gyflawnodd un Cymhwyster Lefel Derbyn neu fwy yn unig;
 - h) na chyflawnodd arholiad TGAU, cwrs byr TGAU, Cymwysterau Lefel Derbyn neu gyfwerth;
 - i) a 1) gyflwynwyd ar gyfer; 2) a gyflawnodd unrhyw radd A*-C; 3) a gyflawnodd unrhyw radd A*-G, ym mhynciau TGAU Saesneg, TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) TGAU mathemateg, TGAU Gwyddoniaeth.

AR GYFER YR HOLL GANLYNIADAU UCHOD, RHAID DANGOS Y CYFARTELEDDA CENEDLAETHOL, LLEOL A'R DDAU GYFARTELEDD MWWYAF DIWEDDAR AR GYFER RHAGLEN DREIGL TAIR BLYNEDD LLE Y BÔNT AR GAEL

- Y ganran, yn ystod y cyfnod 1 Awst i 31 Gorffennaf o'r flwyddyn ysgol dan sylw, a gyflawnodd:
 - CGCC Rhan 1 neu CGCC ar lefel Sylfaenol neu CGC lefel 1;
 - CGCC Rhan 1 neu CGCC ar lefel Ganolradd neu CGC lefel 2.

Y cymwysterau yw'r rhai a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu gorff penodedig o dan adran 400 y Ddeddf neu o dan adran 37 Deddf Addysg 1997.

Ar gyfer disgyblion 16, 17 a 18 oed

- Ar gyfer y flwyddyn ysgol dan sylw, nifer y disgyblion 16, 17 a 18 oed ar gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr.
- Nifer y disgyblion a gyflwynwyd ar gyfer 2 arholiad TAG Safon Uwch neu fwy neu gyfwerth.
- Canran y rheiny a gyflawnodd:
 - a) 2 neu fwy ar radd A-C;
 - b) 2 neu fwy ar radd A-E;
 - c) cyfartaledd sgôr pwyntiau fesul ymgeisydd; a
 - ch) pob un o'r ystodau sgorau pwyntiau canlynol

0	1 i 4	5 i 9	10 i 14	15 i 19	20 i 24	25 i 29	30 neu fwy
---	-------	-------	---------	---------	---------	---------	------------

- y nifer a gyflwynwyd ar gyfer llai na 2 arholiad TAG Safon Uwch neu gyfwerth. Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny:
 - a) cyfartaledd sgôr pwyntiau fesul ymgeisydd;
 - b) cyfartaledd sgôr pwyntiau fesul pwnc;
 - c) canran y rheiny a gyflawnodd bob un o'r ystodau sgorau pwyntiau canlynol

0 i 4	5 i 9	10 i 15
-------	-------	---------

AR GYFER YR HOLL GANLYNIADAU UCHOD, RHAID DANGOS Y CYFARTELEDD CENEDLAETHOL, LLEOL A'R DDAU GYFARTELEDD MWWYAF DIWEDDAR AR GYFER RHAGLEN DREIGL TAIR BLYNEDD LLE Y BÔNT AR GAEL

Nifer y disgyblion, yn ystod y cyfnod 1 Awst i 31 Gorffennaf o'r flwyddyn ysgol dan sylw, a gyflawnodd:

- CGCC Canolradd neu CGC ar lefel 2;
- CGCC Uwch neu CGC ar lefel 3.

Y cymwysterau yw'r rhai a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu gorff penodedig o dan Adran 400 y Ddeddf neu o dan Adran 37 Deddf Addysg 1997.

Nid yw'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyflwyno canlyniadau ar gyfer bechgyn a merched ar wahân, ond anogir ysgolion i wneud hynny.

Anogir Gyrrff Llywodraethol i restru mewn man priodol yn yr Adroddiad Blynyddol nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol sydd â datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig.

Gwybodaeth am Dargedau

Ar gyfer ysgolion Cynradd

- Canran y disgyblion 11 oed sy'n cyrraedd o leiaf lefel 4 yn y profion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn y pynciau canlynol:
 - Saesneg;
 - Cymraeg (iaith gyntaf) mewn ysgolion Cymraeg;
 - mathemateg; a
 - gwyddoniaeth.
- Y gwahaniaeth yng nghanran y bechgyn a merched sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd fel y pennir gan y profion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (h.y. o leiaf lefel 4 mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth cyfun.

Ar gyfer ysgolion Uwchradd

- Canran y disgyblion 14 oed sy'n cyrraedd o leiaf lefel 5 yn y profion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn y pynciau:
 - Saesneg;
 - Cymraeg (iaith gyntaf) mewn ysgolion Cymraeg;
 - mathemateg; a
 - gwyddoniaeth.
- Y gwahaniaeth yng nghanran y bechgyn a merched sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd fel y pennir gan y profion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (h.y. o leiaf lefel 5 mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth cyfun.
- Canran y disgyblion 15 oed:
 - a gyflawnodd o leiaf 5 TGAU gradd AA*-C, neu'r cyfwerth galwedigaethol;
 - a gyflawnodd o leiaf 5 TGAU gradd A*-G, neu'r cyfwerth galwedigaethol;
 - a gyflawnodd y Dangosydd Pwnc Craidd (h.y. o leiaf TGAU gradd C mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad) a'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched;
 - gadael addysg llawn amser heb gymhwyster cydnabyddedig.
- Canran y sesiynau a fethwyd oherwydd absenoldeb anawdurdodedig.

Cynnwys Adroddiadau Blynyddol y Llywodraethwyr: Cyfeiriad at Offerynnau Statudol

Ar gyfer ysgolion Uwchradd yn unig y mae'r eitemau mewn llythrennau italaidd

Eitem	Cyfeiriad at O.S. 2001/1110 Rheoliad 3 (Atodiad)
Nodi'r amser, y dyddiad, y lleoliad, y pwrpas a'r agenda ar gyfer y cyfarfod rhieni blynyddol.	Para 1(a)&(b)
Enwau a chyfeiriadau'r clerc a'r cadeirydd.	Para 2(d)
Enwau'r aelodau o'r corff llywodraethol, eu cyfnod yn y swydd, a'u statws, e.e. rhiant, athro, llywodraethwr sylfaen, cyfetholedig, a benodwyd mewn ffordd arall, yn rhinwedd eu swydd.	Para 2(a)
Mewn achos llywodraethwr a benodwyd, gan bwy y cafodd ei benodi/phenodi, pryd y daw y penodiad i ben (heblaw am lywodraethwyr yn rhinwedd eu swydd), a gwybodaeth am yr etholiad nesaf o rieni-lywodraethwyr.	Para 2(b)&(c) Para 3
Datganiad ariannol llawn y dylai ysgolion sirol ac ysgolion gwirfoddol: atgynhyrchu neu grynhoi unrhyw ddatganiad a ddarparwyd gan yr AALL o dan Adrannau 48 neu 52 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ers yr adroddiad blynyddol diwethaf; nodi sut y gwariwyd unrhyw arian a ddarparwyd gan yr AALL; rhoi manylion am unrhyw roddion i'r ysgol; a chostau teithio a chynhaliaeth y llywodraethwyr.	Para 4(a) to (d)
Y Camau a gymerwyd o ganlyniad i unrhyw benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod diwethaf.	Para 1(c)
Crynodeb o unrhyw newidiadau i brosbectws yr ysgol ers iddo gael ei gyhoeddi	Para 14(1)&(2)
Cynnydd ar gynllun gweithredu'r ysgol (yn dilyn arolygiad).	Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996
Dyddiadau'r tymor ac amserau'r sesiynau.	Para 13
Y Camau a gymerwyd i ddatblygu neu atgyfnerthu cysylltiadau a'r gymuned.	Para 9
Y Camau a gymerwyd i adolygu polisiau'r ysgol	Para 12
Y Camau a gymerwyd i weithredu ac adolygu strategaethau'r ysgol	Para 12
Manylion am bolisi Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yr ysgol, yn cynnwys ei lwyddiant, y ffordd o ddyrannu adnoddau, unrhyw newidiadau a wnaed, ac unrhyw ymgynghori a'r AALL ac ysgolion eraill.	OS 1999/1442 Para 6 ¹
Canlyniadau asesiadau statudol Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) agrededig yr ysgol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 (fel y bo'n briodol). Gall ysgolion â Dosbarthiadau Arbennig Penodedig neu Unedau Arbennig Penodedig arddangos dwy set o wybodaeth. Gellir cyflwyno ail set sy'n cynrychioli canlyniadau prif ffrwd yn unig, ochr yn ochr â chanlyniadau'r ysgol gyfan os bydd ysgolion yn dewis gwneud hynny.	Para 5
Y wybodaeth gymharol genedlaethol (Cymru-gyfan) ddiweddaraf sydd ar gael sy'n seiliedig ar ganlyniadau asesiadau Statudol y CC ar gyfer pob cyfnod allweddol priodol.	Para 7(1) a (2)

¹ O.S. 1999/1442 Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Gwybodaeth) (Cymru) 1999.

Eitem	Cyfeiriad at O.S. 2001/1110 Rheoliad 3 (Atodiad)
Gwybodaeth am ganlyniadau'r ysgol mewn arholiadau TGAU, Safon Uwch, Uwch Gyfrannol a chymwysterau galwedigaethol. Gall ysgolion â Dosbarthiadau Arbennig Penodedig neu Unedau Arbennig Penodedig arddangos dwy set o wybodaeth. Gellir cyflwyno ail set sy'n cynrychioli canlyniadau prif ffrwd yn unig, ochr yn ochr â chanlyniadau'r ysgol gyfan os bydd ysgolion yn dewis gwneud hynny.	Para 6 (a)&(b)
<i>Cyfartaleddau cenedlaethol a lleol (lle byddant ar gael) ar gyfer arholiadau TGAU, Safon Uwch, Uwch Gyfrannol a chymwysterau galwedigaethol.</i>	Para 7(1) & (2)
Crynodeb o'r targedau a osodwyd gan y corff llywodraethol ar gyfer y tair blynedd nesaf a'r cynnydd a wnaed tuag at y targedau diweddaraf.	Para 10(a) & (b)
Gwybodaeth am bresenoldeb.	Para 6(c)
<i>Cyrchfannau'r rhai sy'n gadael yr ysgol e.e. addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.</i>	Para 8
Cynnydd ar fodloni amcanion chwaraeon, a gorchestion chwaraeon	Para 11(a) & (b)
Disgyblion anabl: trefniadau derbyn a mynediad yn ogystal â chymau a gymerwyd i atal disgyblion anabl rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill	Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabled 1995

Cynnwys Adroddiadau Blynyddol y Llywodraethwyr: Rhestr Wirio

Mae'r eitemau mewn *llythrennau italaid* ar gyfer ysgolion uwchradd yn unig

Caiff cyrff llywodraethol eu hatgoffa o'r gofyniad i gynhyrchu adroddiad llawn. Bellach nid oes angen dosbarthu'r adroddiad llawn i bob rhiant, er bod yn rhaid i'r rhieni fod yn ymwybodol bod ganddynt fynediad i gopi o'r adroddiad llawn os oes angen. Rhaid dosbarthu adroddiad cryno, yn cynnwys y wybodaeth a nodir isod, i bob rhiant.

Adroddiad Cryno	Eitem	√
√	Nodi'r amser, y dyddiad, y lleoliad, y pwrpas a'r agenda ar gyfer y cyfarfod rhieni blynyddol	
√	Enwau a chyfeiriadau'r clerc a'r cadeirydd	
√	Enwau aelodau'r corff llywodraethol, eu cyfnod yn y swydd, a'u statws, e.e. rhiant, athro, llywodraethwr sylfaen, cyfetholedig, a benodwyd mewn ffordd arall, yn rhinwedd eu swydd.	
√	Yn achos llywodraethwr a benodwyd, gan bwy y cafodd ei benodi/phenodi, pryd y daw'r penodiad i ben (heblaw am lywodraethwyr yn rhinwedd eu swydd), a gwybodaeth am yr etholiad nesaf o rieni lywodraethwyr.	
	Datganiad ariannol llawn y dylai ysgolion sirol ac ysgolion gwirfoddol: atgynhyrchu neu grynhoi unrhyw ddatganiad a ddarparwyd gan yr AALL o dan Adrannau 40 neu 50 Deddf Diwygio Addysg 1988 ers yr adroddiad blynyddol diwethaf; nodi sut y gwariwyd unrhyw arian a ddarparwyd gan yr AALL; rhoi manylion am unrhyw roddion i'r ysgol; a chostau teithio a chynhaliadau y llywodraethwyr.	
	Y Camau a gymerwyd o ganlyniad i unrhyw benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod diwethaf.	
	Crynodeb o unrhyw newidiadau i brospectws yr ysgol ers iddo gael ei gyhoeddi	
	Cynnydd ar gynllun gweithredu'r ysgol (yn dilyn arolygiad).	
	Dyddiadau'r tymor ac amserau'r sesiynau.	
	Y Camau a gymerwyd i ddatblygu neu atgyfnerthu cysylltiadau â'r gymuned.	
	Y Camau a gymerwyd i adolygu polisïau'r ysgol	
	Y Camau a gymerwyd i weithredu ac adolygu strategaethau'r ysgol	
	Manylion am bolisi Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yr ysgol, yn cynnwys ei lwyddiant, y ffordd o ddyrannu adnoddau, unrhyw newidiadau a wnaed, ac unrhyw ymgynghori â'r AALL ac ysgolion eraill.	
√	Canlyniadau asesiadau statudol Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) agrededig yr ysgol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 (fel y bo'n briodol). Gall ysgolion â Dosbarthiadau Arbennig Penodedig neu Unedau Arbennig Penodedig arddangos dwy set o wybodaeth. Gellir cyflwyno ail set sy'n cynrychioli canlyniadau prif ffrwd yn unig, ochr yn ochr â chanlyniadau'r ysgol gyfan os bydd ysgolion yn dewis gwneud hynny.	
√	Y wybodaeth gymharol genedlaethol (Cymru-gyfan) ddiweddaraf sydd ar gael sy'n seiliedig ar ganlyniadau asesiadau Statudol y CC ar gyfer pob cyfnod allweddol priodol.	
√	Gwybodaeth am ganlyniadau'r ysgol mewn arholiadau TGAU, Safon Uwch, Uwch Gyfrannol a chymwysterau galwedigaethol. Gall ysgolion â Dosbarthiadau Arbennig Penodedig neu Unedau Arbennig Penodedig arddangos dwy set o wybodaeth. Gellir cyflwyno ail set sy'n cynrychioli canlyniadau prif ffrwd yn unig, ochr yn ochr â chanlyniadau'r ysgol gyfan os bydd ysgolion yn dewis gwneud hynny.	
√	Cyfartaleddau cenedlaethol a lleol (lle byddant ar gael) ar gyfer arholiadau TGAU, Safon Uwch, Uwch Gyfrannol a chymwysterau galwedigaethol.	
√	Crynodeb o'r targedau a osodwyd gan y corff llywodraethol ar gyfer y tair blynedd nesaf a'r cynnydd a wnaed tuag at y targedau diweddaraf.	
√	Gwybodaeth am bresenoldeb.	
	Cyrchfannau'r rhai sy'n gadael yr ysgol e.e. addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.	
	Cynnydd ar fodloni amcanion chwaraeon, a gorchestion chwaraeon.	
	Disgyblion anabl: trefniadau derbyn a mynediad yn ogystal â chamau a gymerwyd i atal disgyblion	

